Archwilio Pam

# Bara



Adnoddau Gweithgaredd
ar gyfer dysgwyr ac athrawon

*Archwilio Pam*

# Bara

## Adnoddau Gweithgaredd ar gyfer dysgwyr ac athrawon

Tania ap Siôn, Leslie J Francis a Libby Jones

Darluniwyd gan Phillip Vernon

Bear Lands Publishing

Cyhoeddwyd 2016 gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y Gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru.

## YNGHYLCH Y GYFRES *ARCHWILIO PAM*

**Am beth mae'r gyfres?**
Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwmpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd. Gyda'i gilydd maen nhw'n archwilio bara, goleuni, fêl, croes, menora a dŵr, ac yna maen nhw'n cymryd rhan mewn Gŵyl Ffydd lle maen nhw'n cofio am bob un o'r symbolau ffydd hyn ac yn eu dathlu.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, a'r lle gaiff ei ddarparu mewn addysg i holi, i archwilio ac i lunio dealltwriaeth gynyddol pobl ifanc o'u perthynas â hwy eu hunain, gydag eraill, ac â byd natur. Mae'r gyfres wedi cael ei llunio ar ymchwil helaeth y maes crefyddau, pobl ifanc ac addysg, yn ogystal ag ar ymwneud ag arfer addysgol ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r sylfeini hyn yn gosod y gyfres mewn sefyllfa unigryw ymhlith y nifer fawr o adnoddau addysgol sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r adnoddau yn y gyfres yn fwriadol yn hyblyg a heb fod yn rhagnodol. Mae hyn yn cydnabod natur y dysgu y tu mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth heddiw ar gyfer plant dan 7 oed, a hefyd bwysigrwydd ysgogi a chefnogi creadigrwydd ac unigolrwydd athrawon wrth iddyn nhw lunio eu mannau dysgu.

Mae'r gyfres wedi cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru ac wedi ei dyfeisio i gefnogi addysg grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen gyda golwg ar ddysgu gweithredol trwy ddull chwarae. Mae'n tynnu'n benodol ar *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y *Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*, a'r *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yng Nghymru*, ac mae'n ymwneud â'r rhain. Er bod yr adnoddau gweithgaredd wedi eu lleoli yn y cyd-destun penodol hwn, mae'n hawdd perthnasu'r gwaith ymchwil, a'r dulliau pedagogaidd sy'n sail iddyn nhw, i gyd-destunau eraill ac i'r cwricwla ysgol sy'n newid.

**Ar gyfer pwy mae'r gyfres?**
Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau yn y gyfres wedi'u hanelu at blant 5 - 7 oed, ond mae'r amrywiaeth o fformatau llyfr stori a'r gweithgareddau'n gwneud y gyfres yn berthnasol ar gyfer dysgwyr iau a hŷn yn ogystal.

Mae'r gyfres wedi ei chynllunio yn bennaf ar gyfer athrawon a dysgwyr mewn ysgolion; fodd bynnag, gall rhai o fewn cyd-destunau dysgu ffurfiol ac anffurfiol eraill, gan gynnwys y cartref, hefyd ganfod y gyfres yn ddiddorol ac yn berthnasol.

**Pa adnoddau sydd ar gael?**
Mae saith o lyfrau stori yn y gyfres *Archwilio Pam*, sy'n ymchwilio i rai o'r pethau pwysig y mae Aled a Siân yn dod o hyd iddyn nhw wrth archwilio'r byd o'u cwmpas. Mae'r pethau pwysig hyn yn cael eu harchwilio'n gyntaf yn yr

amgylchedd seciwlar lleol cyn cael eu harchwilio drwy lygaid pobl ifanc o fewn traddodiad crefyddol penodol. Y saith llyfr stori a'r traddodiadau crefyddol yw:

- Croes (Cristnogol)
- Bara (Cristnogol)
- Fêl (Mwslimaidd)
- Dŵr (Mwslimaidd)
- Menora (Iddewig)
- Goleuni (Iddewig)
- Symbolau Ffydd (yn dod â'r tri thraddodiad crefyddol ynghyd mewn dathliad o gredoau)

Mae pob un o'r llyfrau stori i'w cael mewn pedwar fformat gwahanol, y mae'n bosib eu defnyddio mewn ffordd hyblyg, yn unol â chyd-destunau unigol. Mae pedwar fformat i'r llyfrau stori:

- fersiwn testun byr (testun byr, syml gyda lluniau)
- fersiwn testun hir (testun hirach, mwy cymhleth gyda lluniau)
- fersiwn cwestiynau allweddol (cwestiynau allweddol a lluniau)
- fersiwn lluniau (lluniau'n unig heb destun)

Mae pob un o'r fformatau ar gael i'w llwytho i lawr ar ffurf .pdf, y gellir eu defnyddio ar fyrddau gwyn ac ar amrywiaeth o ddyfeisiau electronig sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd mewn ysgolion, a chan bobl ifanc a'u teuluoedd heddiw.

Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl ar gael fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer eu defnyddio yn y dosbarth.

I ategu'r llyfrau stori, mae gan bob un o'r llyfrau stori ei becyn ei hun o *Adnoddau Gweithgaredd* ar gyfer dysgwyr ac athrawon mewn fformat .pdf y gellir ei lwytho i lawr. Mae'r Adnoddau Gweithgaredd hyn yn dilyn yr un strwythur â'r llyfrau stori. Felly, ar gyfer pob tudalen ddwbl o'r llyfr stori, mae:

- tudalen o syniadau ar gyfer gweithgareddau i bob un o'r saith maes dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen;
- taflen neu daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr i ategu un o'r syniadau gweithgaredd hyn;
- cysylltiadau â 'mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol'.

Yn gyfan gwbl, ar gyfer pob teitl llyfr stori mae yma 140 o syniadau am weithgareddau a 10 o daflenni gweithgaredd ar gyfer dysgwyr.

**Mynediad at adnoddau'r gyfres *Archwilio Pam***
Mae'r holl adnoddau hyn yn rhai y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar **hwb.wales.gov.uk/Adnoddau** a **st-marys-centre.org.uk**
Mae'r fersiwn testun byr o bob teitl llyfr stori ar gael hefyd i'w brynu fel llyfr clawr papur B5 ar gyfer llyfrgelloedd ysgol a dosbarth, yn ogystal ag ar gyfer ei ddefnyddio yn y dosbarth.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen y storïau ac yn mwynhau archwilio'r adnoddau'n greadigol yn eich cyd-destunau dysgu eich hunain.

Dr Tania ap Siôn
*Canolfan y Santes Fair, Cymru*
*Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick*

Yr Athro Leslie J Francis
*Canolfan y Santes Fair, Cymru*
*Uned Ymchwil Crefyddau ac Addysg Warwick, Prifysgol Warwick*

Libby Jones
*Canolfan San Silyn, Wrecsam*

Phillip Vernon
*Canolfan y Santes Fair, Cymru*

Gorffennaf 2016



Tudalen 4



Tudalen 5

## Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Arbrofwch gyda bara a thost, a beth sy'n eu gwneud yn wahanol
- Beth sy'n digwydd os byddwch chi'n gadael tafell o fara a thafell o dost mewn dau gynhwysydd ar wahân am wythnos?

## Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Chwaraewch rôl codi yn y bore a pharatoi a bwyta brecwast a chlirio wedyn
- Lluniwch restr siopa ar gyfer brecwast gan ddefnyddio safle ar-lein archfarchnad **(Gweithgaredd 1)**

## Datblygiad iaith Gymraeg

- bara
- tost

## Datblygiad corfforol

- Taenwch fenyn a jam ar dost, gan ofalu am iechyd a diogelwch
- Crëwch ddawns am ddarn o fara'n troi'n ddarn o dost

## Datblygiad creadigol

- Gan ddefnyddio amrywiaeth o wrthrychau brecwast, crëwch ddarn o gerddoriaeth brecwast
- Crëwch gollage ar y thema brecwast

## Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Archwiliwch wahanol fwydydd brecwast a'r hyn maen nhw'n ei roi i'r corff
- Ymchwiliwch wahanol frecwastau traddodiadol o fannau ledled y byd

## Datblygiad mathemategol

- Amcangyfrifwch pa sawl tafell o fara sydd mewn torth wedi ei thafellu, a faint o dorthau y byddech chi eu hangen i fwydo plant y dosbarth
- Dangoswch faint o blant y dosbarth gafodd dost i frecwast, ar ffurf bersonol, ac yna ar ffurf siart bloc


Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol


Mewnwelediad


Cyfrifoldeb


© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016


## Rhestr Siopa Brecwast
















Lluniwch restr siopa ar gyfer brecwast gan ddefnyddio geiriau a lluniau.


© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 6



Tudalen 7

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Holwch ynghylch hanes bara
- Pa siopau sy'n gwerthu bara lle'r ydych chi'n byw?

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Siaradwch am y bwyd ar fwrdd y gegin ac am beth sydd gennych chi ar fwrdd eich cegin chi
- Meddyliwch am eiriau sy'n ymwneud â bara **(Gweithgaredd 2)**

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- rholiau bara
- caws

**Datblygiad corfforol**

- Meimiwch eich bod yn pasio 'rhôl fara' boeth iawn yn gyflym o'r naill berson i'r llall heb ei gollwng ar lawr
- Meimiwch eich bod yn glanhau eich dannedd yn ofalus ar ôl pryd bwyd

**Datblygiad creadigol**

- Casglwch labeli oddi ar fwydydd a diodydd o focsys bwyd amser cinio'r plant a'u harddangos
- Crëwch gollage bocs bwyd

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol**

- Dysgwch am bobl sy'n gorfod osgoi bwyta gwenith
- Holwch am wahanol fathau o fara o wahanol wledydd y byd

**Datblygiad mathemategol**












- Ymchwiliwch beth yw'r llenwad mwyaf poblogaidd i'w roi mewn rholiau bara a brechdanau
- Faint o roliau sydd mewn '*baker's dozen*'?



© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

## Ydych chi'n gallu cyfateb y lluniau â'r geiriau

Torrwch allan y geiriau a'r lluniau unigol.
Nawr, ydych chi'n gallu cyfateb y lluniau â'r geiriau?

| | | | |
|---|---|---|---|
| torth |  | torri |  |
| tafell |  | pobi |  |
| rhôl |  | burum |  |
| brehcdan |  | blawd |  |
| cymysgu |  | tylino |  |
| toes |  | menyn |  |


© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

## Ydych chi'n gallu tynnu lluniau'r geiriau hyn?


| | |
|---|---|
| torth | torri |
| tafell | pobi |
| rhôl | burum |
| brechdan | blawd |
| cymysgu | tylino |
| toes | menyn |


© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016


## Ydych chi'n gallu ysgrifennu'r geiriau hyn?

| | | |
|---|---|---|
| torth | tafell | rhôl |
| menyn | brechdan | torri |
| pobi | burum | blawd |
| cymysgu | tylino | toes |


© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016




Tudalen 8



Tudalen 9

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Gwnewch eich bara eich hun **(Gweithgaredd 3)**
- Holwch ynghylch gwahanol fathau o fara a'r rhai rydych chi wedi eu blasu a'u mwynhau

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Siaradwch am arogleuon y siop fara
- Lluniwch gerdd am y siop fara

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- torth gron
- popty

**Datblygiad corfforol**

- Cerddwch i siop fara a defnyddiwch eich holl synhwyrau
- Ewch am dro i'r archfarchnad

**Datblygiad creadigol**

- Pobwch roliau bara
- Crëwch arddangosfa ffenestr siop fara ar gyfer Evans y Pobydd

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol**

- Dysgwch am yr adeg o'r dydd y bydd y Evans y Pobydd yn dechrau gweithio
- Dysgwch sut mae'r torthau ffres yn cael eu cludo i archfarchnad

**Datblygiad mathemategol**

- Faint o blant sydd wedi gweld torth gron (*cottage loaf*)?
- Faint o amser mae'n ei gymryd i bobi torth?

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol

Ymatebion personol


Cwestiynau

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016


# Ydych chi'n gallu dilyn y rysáit hon?

***Cynhwysion:*** (ar gyfer 2 dorth fach – tuniau 1 lb)
680g (1 ½ lb) blawd bara gwyn plaen
1 llond llwy fwrdd wastad siwgr
2 llond llwy de wastad halen
3 llond llwy de wastad burum byw sych
14g (½ oz) menyn, braster neu olew (dewisol)
200 ml (14 fl oz) dŵr 'tymheredd llaw'

1. Rhowch y blawd mewn dysgl gymysgu fawr a'i roi i sefyll mewn lle cynnes.
2. Toddwch 1 llond llwy de o'r siwgr yn 1/3 o'r dŵr. Ychwanegwch y burum a'i chwisgo. Gadewch iddo sefyll mewn lle cynnes nes bydd yn ewynnog (bydd hyn yn cymryd tua 10 munud).
3. Rhwbiwch y menyn neu'r braster i'r blawd.
4. Toddwch weddill y siwgr a'r halen yng ngweddill y dŵr ac ychwanegwch hwn a'r burum at y blawd.
5. Cymysgwch i wneud toes llyfn. Tylinwch y toes ar fwrdd â blawd arno nes ei fod ddim mwyach yn ludiog (bydd hyn yn cymryd tua 5 munud).
6. Gorchuddiwch y toes a'i adael mewn lle cynnes am 20 munud.
7. Trowch y toes ar fwrdd â blawd arno, a'i dylino. Rhannwch y toes yn ei hanner. Ffurfiwch bob darn yn bêl, ac yna ei siapio a'i roi mewn tuniau wedi eu hiro (yn awr gosodwch y popty i boethi o flaen llaw).
8. Gorchuddiwch y tuniau a'u gadael mewn lle cynnes bydd y toes hanner modfedd yn uwch na thop y (bydd hyn yn cymryd tua 20 munud).
9. Crasu ar 450°F (230° C) neu farc nwy 5 munud.




© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016




Tudalen 10



Tudalen 11

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Edrychwch ar luniau o wledydd sydd â diwylliant o gaffis awyr agored
- Caffi Ffrengig yw Café Fleur – archwiliwch y gwahanol fathau o fara o wahanol wledydd ledled y byd

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Dysgwch rai geiriau Ffrangeg i'w defnyddio yn y caffi
- Disgrifiwch y *croissants* a'r ffyn bara Ffrengig hir, gan ddefnyddio eich holl synhwyrau

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- ffon fara Ffrengig
- croissant

**Datblygiad corfforol**

- Cariwch hambyrddau gweini yn y caffi
- Trefnwch flodau ar gyfer byrddau'r caffi

**Datblygiad creadigol**

- Gosodwch gadeiriau a byrddau i wneud caffi
- Lluniwch fwydlen ar gyfer y caffi **(Gweithgaredd 4)**

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol**

- Dysgwch am fywyd mewn gwledydd cynnes lle mae ganddyn nhw gaffis awyr agored
- Dysgwch am fywyd yn Ffrainc

**Datblygiad mathemategol**

- Pa mor hir yw ffon fara Ffrengig hir?
- Faint mae *croissants* yn ei bwyso?

**Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol** | Cyfrifoldeb | Mewnwelediad

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Café Fleur


Bwydlen Brecwast

Lluniwch fwydlen brecwast ar gyfer Café Fleur.


© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 12



Tudalen 13

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Holwch ynghylch beth yw burum
- Dysgwch sut i drin poptai gyda gofal mawr

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Datblygwch sgwrs rhwng Aled a Siân a mam Peter a Mary
- Siaradwch am sut roedd mam Peter a Mary'n gwneud y bara

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- menig popty
- tun pobi

**Datblygiad corfforol**

- Tylinwch does yn y ffordd briodol
- Dawnsiwch ddawns y bara'n codi yn y popty

**Datblygiad creadigol**

- Lluniwch boster am bobi bara gartref
- Dyluniwch eich torth arbennig chi eich hun

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol**

- Dysgwch am bobi cartref ac am farchnadoedd ffermwyr
- Dysgwch am bobl sy'n pobi gartref

**Mathematical development**


- Chwaraewch gêm 'Teuluoedd dedwydd' bara (*Happy families*) am Fwydo'r Pum Mil
- Holwch ynghylch gwahanol raddau o dymheredd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer coginio **(Gweithgaredd 5)**

**Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol**

**Ystyr**

**Ymatebion personol**

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016





## Pam mae tymheredd yn bwysig?






Holwch ynghylch tymheredd coginio mewn popty ar gyfer y bwydydd yn y tabl. Defnyddiwch yr allwedd tymheredd i ddisgrifio’r tymheredd fel claear, cymedrol, poeth, neu boeth iawn.

1 fflam = claear 100 -130°C

2 fflam = cymedrol 160 – 190°C

3 fflam = poeth 190 – 230°C

4 fflam = poeth iawn 230 – 260°C

| **Claear, cymedrol, poeth, neu poeth iawn?** | **Bwyd** |
|---|---|
| meringue |  |
| pizza |  |
| cyw iâr |  |
| pysgodyn |  |
| bara |  |


Pam mae gwahanol fwydydd angen eu coginio ar wahanol dymheredd?



© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 14



Tudalen 15

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Archwiliwch wahanol allorau sy'n cael eu defnyddio mewn eglwysi
- Archwiliwch wahanol fathau o gwpanau cymun

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Siaradwch am stori'r Swper Olaf a'r gwasanaeth cymun **(Gweithgaredd 6)**
- Chwiliwch am lun cwpan cymun a'i ddisgrifio er mwyn i rywun arall dynnu ei lun

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- cwpan cymun arian
- plât arian

**Datblygiad corfforol**

- Meimiwch yr orymdaith yn cario'r cwpan arian a'r plât arian at yr allor
- Archwiliwch pa gyflymder fyddai'n gweddu orau i'r orymdaith

**Datblygiad creadigol**

- Gwnewch fodelau o gwpan arian a phlât arian
- Adeiladwch allor ar gyfer y cwpan a'r plât

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol**

- Dysgwch sut mae Cristnogion yn cymryd gofal mawr o'r cwpan cymun a'r plât cymun
- Dysgwch sut mae Cristnogion yn gwerthfawrogi bara ar gyfer y gwasanaeth cymun

**Datblygiad mathemategol**

- Pa mor dal yw'r cwpan?
- Pa mor llydan yw'r plât?

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol

Ystyr


Dylanwad

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Adroddwch stori'r Swper Olaf

Argraffwch y lluniau hyn o'r Swper Olaf mewn lliw (mae symbol cylch ar bob un ohonyn nhw).

- Ydych chi'n gallu rhoi'r lluniau yn y drefn gywir er mwyn adrodd stori'r Swper Olaf?







© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016


# Cysylltu’r gwasanaeth cymun â’r Swper Olaf

Argraffwch y lluniau hyn o’r Swper Olaf mewn lliw (mae symbol triongl ar bob un ohonyn nhw).

- Ydych chi’n gallu cyfateb beth wnaeth Iesu yn y Swper Olaf gyda’r hyn mae Cristnogion yn ei wneud yn y gwasanaeth cymun heddiw?
















© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 16



Tudalen 17

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Holwch beth yw ystyr 'Efengyl'
- Edrychwch ar gynllun o eglwys a nodwch ble mae'r festri

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Adroddwch y stori am Iesu'n bwydo 5,000 o bobl
- Crëwch gerdd am bum torth fach

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- Beibl
- Efengyl

**Datblygiad corfforol**

- Meimiwch weithredoedd Iesu'n cymryd bara, yn gofyn bendith, yn torri'r bara ac yn rhannu'r bara
- Dawnsiwch 'gasglu ynghyd' y bara a oedd yn weddill i fasgedi

**Datblygiad creadigol**

- Ysgrifennwch adnod o Marc 6 a'i haddurno
- Gosodwch bicnic fel Iesu'n bwydo'r bobl

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol**

- Dysgwch sut mae Cristnogion yn bwydo pobl newynog heddiw ledled y byd
- Dysgwch am yr elusen Cymorth Cristnogol

**Datblygiad mathemategol**

- Sawl torth fyddai ei hangen arnoch chi i fwydo 5,000 o bobl heddiw?
- Chwaraewch y gêm gardiau "Teuluoedd Dedwydd" pum torth a dau bysgodyn **(Gweithgaredd 7)**

**Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol**


Mewnwelediad

Cyfrifoldeb

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

## Chwaraewch y gêm gardiau Teuluoedd Dedwydd


Argraffwch y delweddau hyn ar gerdyn, a'u torri i wneud cardiau chwarae unigol.




© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

## Chwaraewch y gêm gardiau Teuluoedd Dedwydd

Argraffwch y delweddau hyn ar gerdyn, a’u torri i wneud cardiau chwarae unigol.







© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

## Rheolau'r gêm gardiau Teuluoedd Dedwydd

1. Mae'r gweithgaredd 'Teuluoedd Dedwydd' hwn yn union fel unrhyw gêm gardiau Teuluoedd Dedwydd (*Happy Families*). Mae 42 cerdyn yn y pecyn.
2. Mae angen i chi wneud teulu o gardiau:
   5 torth sy'n union yr un fath
   2 bysgodyn sy'n union yr un fath
3. Nid dim ond casglu 7 cerdyn ynghyd yw'r 'cyfrif', ond hefyd gwaith adio gan fod rhai o'r cardiau gydag 1, 2 neu 3 symbol o dorthau arnyn nhw, ac mae rhai o'r cardiau pysgod gyda 2 bysgodyn arnyn nhw.
   Rhaid cael y cyfuniad cywir i wneud 'teulu'.
4. Unwaith y mae'r 7 wedi eu casglu, gosodwch nhw â'u hwyneb i fyny ar y bwrdd/llawr o'ch blaen.
5. Mae'r gêm yn parhau nes bydd dim cardiau ar ôl. Yr enillydd yw'r un sydd â'r nifer fwyaf o deuluoedd.


© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau gweithgareddau 18-19 BARA



Tudalen 18



Tudalen 19

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Holwch am y gwahanol enwau sydd gan Gristnogion am y gwasanaeth ar y Sul: cymun, offeren, ewcharist
- Mae ffenestri lliw yn dweud storïau mewn darluniau

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Siaradwch am y lliwiau yn y ffenestr liw
- Siaradwch am y fasged o fara a physgod

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- basged
- pysgodyn/pysgod

**Datblygiad corfforol**

- Ewch i weld ffenestr liw
- Edrychwch o gwmpas eglwys leol

**Datblygiad creadigol**

- Gwnewch ffenestr liw
- Torrwch allan siapiau'r bara a'r pysgod i wneud murlun

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol**

- Archwiliwch beth sydd ei angen ar gyfer picnic **(Gweithgaredd 8)**
- Dysgwch am bobi yn amser Iesu

**Datblygiad mathemategol**


- Faint o blant yn y grŵp sy'n hoffi pysgod?
- Sawl math gwahanol o bysgod sydd i'w cael yn y siop leol?

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol | Cwestiynau | Ymatebion personol

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

## Beth ydw i ei angen ar gyfer picnic?


Meddyliwch am bethau da i'w bwyta a'u hyfed ar gyfer picnic. Tynnwch lun beth fyddech chi'n ei hoffi yn eich basged bicnic chi.




© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 20



Tudalen 21

### Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd

- Dysgwch fod y bara'n cael ei gario gan y bobl i'r offeiriad yn y gwasanaeth cymun, mae'r offeiriad yn bendithio'r bara ac yna mae'n cael ei rannu gyda'r bobl
- Archwiliwch y dillad y mae'r offeiriad a'r gwas allor yn eu gwisgo

### Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu

- Dysgwch emyn am y cymun (e.e. Bara'r nefoedd, arnat ti ...)
- Dyluniwch swigod meddwl i'r bobl sy'n eistedd yn yr eglwys

### Datblygiad iaith Gymraeg

- canhwyllau
- cario

### Datblygiad corfforol

- Ewch ati i ymarfer cario'r bara yn ofalus, yn araf ac â pharch
- Mewn grwpiau, defnyddiwch eich cyrff i ffurfio siapiau cysylltiedig â'r gwasanaeth **(Gweithgaredd 9)**

### Datblygiad creadigol

- Gwisgwch wisgoedd gwyn er mwyn gallu teimlo fel y person ifanc sy'n cario'r bara
- Gwisgwch wisgoedd tebyg i'r rhai mae'r ficer yn eu gwisgo

### Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

- Holwch ynghylch Cristnogion yn rhannu'r cymun fel hyn ledled y byd
- Gofynnwch i rai Cristnogion beth maen nhw'n ei gredu ynglŷn â bod Iesu gyda nhw yn y gwasanaeth cymun

### Datblygiad mathemategol

- Faint o bobl ydych chi'n gallu eu gweld yn y llun o'r gynulleidfa?
- Faint o bobl sy'n gallu eistedd yn eich eglwys leol?

**Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol**

Dylanwad

Ystyr


© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

## Ydych chi'n gallu gwneud y siapiau hyn?


Mewn grwpiau o bump neu chwech, ceisiwch ffurfio'r siapiau hyn.




torth o fara




rhôl fara



plât



croes



cwpan cymun


© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016



Tudalen 22



Tudalen 23

**Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd**

- Holwch ynghylch y gwahanol ffyrdd mae pobl yn derbyn y cymun, er enghraifft, yn sefyll neu'n penlinio
- Archwiliwch sut mae'r cymun yn cael ei weinyddu mewn gwahanol eglwysi

**Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu**

- Lluniwch gerdd am dorri a rhannu bara
- Gwrandewch ar ddarn byr o'r gwasanaeth cymun

**Datblygiad iaith Gymraeg**

- allor
- Corff Crist

**Datblygiad corfforol**

- Ceisiwch gael y profiad o benlinio wrth reilen yr allor
- Chwaraewch rôl y ficer yn rhoi'r bara ac yn dweud "Corff Crist"

**Datblygiad creadigol**

- Gosodwch allor yn yr ystafell ddosbarth
- Addurnwch a thorrwch allan siapiau cwpan a phlât cymun i wneud murlun **(Gweithgaredd 10)**

**Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol**

- Gwrandewch ar rai Cristnogion yn siarad am eu profiad o ymwneud â'r cymun
- Ceisiwch gael y profiad o gerddoriaeth fyfyriol Gristnogol yn ymwneud â'r cymun (e.e. yr emyn-dôn Picardy)

**Datblygiad mathemategol**


- Ewch ati i ddarganfod faint o bobl a dderbyniodd y cymun yn eich eglwys leol y Sul blaenorol (gwelwch y gofrestr gwasanaethau)
- Faint o bobl sy'n gallu penlinio wrth reilen yr allor yn eich eglwys leol?

Mynd yn ddyfnach i agweddau ar addysg grefyddol

Ymatebion personol

Mewnwelediad

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016




© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

***Y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol yng Nghymru***

**Ystod: Pobl, Credoau a Chwestiynau (5-7)**
Dylai plant gael cyfleoedd (trwy storïau, gweithgareddau a phrofiadau) i:


- gael **mewnwelediad** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd;
- archwilio sut y mae crefydd wedi **dylanwadu ar fywyd pobl** a **rhoi arweiniad** iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach;
- gofyn **cwestiynau** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio;
- ymchwilio a mynegi **ystyr** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth;
- mynegi **ymatebion personol** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol;
- archwilio ein **cyfrifoldeb** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol.

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016





# Tudalennau 4-5



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Cael ***mewnwelediad*** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae bwyd yn ganolog i arferion crefyddol. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol***<br>• Archwiliwch wahanol fwydydd brecwast, a'r hyn maen nhw'n ei roi i'r corff. |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Archwilio ein ***cyfrifoldeb*** ni a hyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae bwyta'n briodol yn greiddiol i les dynol. |
| **Maes dysgu** | ***Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu***<br>• Chwaraewch rôl codi yn y bore a pharatoi brecwast, bwyta a chlirio wedyn. |

Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 6-7


| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Gofyn ***cwestiynau*** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae gwahanol fathau o fara'n cael eu defnyddio mewn gwahanol grefyddau. |
| **Maes dysgu** | ***Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd***<br>• Holwch ynghylch hanes bara. |

| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Ymchwilio a mynegi ***ystyr*** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae bara'n annog cwestiynau crefyddol. |
| **Maes dysgu** | ***Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu***<br>• Meddyliwch am eiriau'n ymwneud â bara. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 8-9



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Mynegi ***ymatebion personol*** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio'r rhyfeddod blawd a burum yn troi'n fara. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad creadigol***<br>• Pobwch roliau bara. |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Gofyn ***cwestiynau*** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Gofyn ***cwestiynau*** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad corfforol***<br>• Cerddwch i siop fara a defnyddiwch eich holl synhwyrau. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016






# Tudalennau 10-11



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Archwilio ein ***cyfrifoldeb*** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae bara'n cael ei siapio a'i ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol wledydd, ac adroddwch ar hyn. |
| **Maes dysgu** | ***Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd***<br>• Archwiliwch y gwahanol fathau o fara o wledydd ledled y byd. |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Cael ***mewnwelediad*** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae pobl yn byw'n wahanol mewn gwahanol hinsoddau a diwylliannau. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol***<br>• Dysgwch am fywyd mewn llefydd cynnes lle mae ganddyn nhw fwytai awyr agored. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016






# Tudalennau 12-13



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Ymchwilio a mynegi ***ystyr*** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae gan fara le mewn defodau Cristnogol. |
| **Maes dysgu** | ***Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu***<br>• Datblygwch sgwrs rhwng Aled a Siân a mam Peter a Mary. |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Mynegi ***ymatebion personol*** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio creadigedd gwneud bara. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad corfforol***<br>• Tylinwch does yn y ffordd briodol. |

Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 14-15


| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Ymchwilio a mynegi ***ystyr*** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae Cristnogion yn gwerthfawrogi ac yn parchu'r cwpan a'r plât cymun. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad mathemategol***<br>• Pa mor dal yw'r cwpan, pa mor llydan yw'r plât? |

| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Archwilio sut y mae crefydd wedi ***dylanwadu*** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae Cristnogion yn adeiladu eu bywydau o gwmpas y *gwasanaeth cymun* a stori'r swper olaf. |
| **Maes dysgu** | ***Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu***<br>• Siaradwch am stori'r Swper Olaf a'r gwasanaeth cymun. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 16-17



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Cael ***mewnwelediad*** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio arwyddocâd crefyddol stori Iesu'n bwydo 5,000 o bobl. |
| **Maes dysgu** | ***Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu***<br>• Dywedwch stori Iesu'n bwydo 5,000 o bobl. |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Archwilio ein ***cyfrifoldeb*** ni a chyfrifoldeb crefydd am bethau byw ac am y byd naturiol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio sut mae Cristnogion yn mynegi cyfrifoldeb am fwydo rhai newynog. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad creadigol***<br>• Ysgrifennwch adnod o Marc 6 a'i goliwio. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016






# Tudalennau 18-19



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Gofyn ***cwestiynau*** ynglŷn â chredoau, gwerthoedd a gweithredoedd sy'n deillio o archwilio. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio arwyddocâd y gwahanol enwau sydd gan Gristnogion am y gwasanaeth cymun. |
| **Maes dysgu** | ***Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd***<br>• Holwch ynghylch y gwahanol enwau sydd gan Gristnogion am y gwasanaeth cymun. |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Mynegi ***ymatebion personol*** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio ymatebion personol i ymweliad ag eglwys. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad corfforol***<br>• Edrychwch o gwmpas eglwys leol. |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016

# Tudalennau 20-21



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Archwilio sut y mae crefydd wedi ***dylanwadu*** ar fywydau pobl a *rhoi arweiniad* iddynt, yn y gorffennol a'r presennol, gan gynnwys pwyslais crefydd ar ysbrydolrwydd a phrofiad crefyddol, yng Nghymru a'r byd ehangach. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio'r dylanwad y mae cyfranogi yn y gwasanaeth cymun yn ei gael ar fywydau pobl. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol***<br>• Gofynnwch i rai Cristnogion beth maen nhw'n ei gredu ynglŷn â bod Iesu'n bresennol gyda nhw yn y gwasanaeth cymun. |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Ymchwilio a mynegi ***ystyr*** (gan gynnwys ystyr crefyddol) drwy arwyddion, symbolau, arteffactau a delweddaeth. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio arwyddocâd crefyddol yr iaith sy'n cael ei defnyddio am gymun. |
| **Maes dysgu** | ***Iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu***<br>• Dysgwch emyn am y cymun (e.e. Bara'r nefoedd, arnat ti) |


Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016






## Tudalennau 22-23



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Mynegi ***ymatebion personol*** i gwestiynau personol, crefyddol a moesol. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio 'parchedigaeth' drwy benlinio i dderbyn cymun |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad corfforol***<br>• Ceisiwch gael y profiad o benlinio wrth reilen yr allor. |



| | |
|---|---|
| **Agwedd ar yr ystod** | Cael ***mewnwelediad*** i grefydd, pobl grefyddol ac agweddau crefyddol ar fywyd. |
| **Datblygiad Addysg Grefyddol** | Archwilio'r naws o ddirgelwch sydd ynghylch dathliad Cristnogol y cymun. |
| **Maes dysgu** | ***Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol***<br>• Ceisiwch gael y profiad o gerddoriaeth fyfyriol Gristnogol ar y cymun (e.e. yr emyn-dôn Picardy). |

Nôl

© Tania ap Siôn a Phillip Vernon 2016